


# RHESTR WIRIO AR GYFER MASNACHWYR

## BYDD RHEOLAU NEWYDD YN EFFEITHIO ARNOCH O 1 IONAWR 2021 YMLAEN

Defnyddiwch y rhestr wirio hon i'ch helpu i baratoi i symud nwyddau rhwng Prydain Fawr ac Ewrop o 1 Ionawr 2021 ymlaen

GWEITHREDWCH NAWR I FOD YN BAROD MEWN PRYD GOV.UK/TRANSITION.CY

Gwiriwch
Newidiwch
Ewch

Llywodraeth y DU
Cymru
PONTIO'R DU

# SYMUD NWYDDAU I MEWN I EWROP NEU ALLAN OHONI

Os yw'ch busnes yn symud nwyddau rhwng Prydain Fawr ac Ewrop, bydd rheolau masnachu newydd yn effeithio arnoch o 1 Ionawr 2021 ymlaen. Bydd y rheolau hyn yn berthnasol i'r holl fasnachu ag Ewrop, p'un a ydych yn prynu neu'n gwerthu nwyddau unwaith y flwyddyn neu bob dydd, a waeth beth yw'r math, y cyfaint neu'r gwerth – felly mae angen i bob busnes baratoi.

Rydym yn gwybod bod hwn yn gyfnod heriol i fusnesau, dyma pam ein bod wedi creu'r rhestr wirio fer hon i'ch helpu i baratoi'ch busnes.

Dilynwch y camau isod er mwyn paratoi'ch busnes i fasnachu ag Ewrop o 1 Ionawr 2021 ymlaen.

## 1 Gwirio pan fydd angen i chi wneud datganiadau

Os ydych yn dymuno prynu, gwerthu neu symud nwyddau rhwng Prydain Fawr ac Ewrop o 1 Ionawr 2021 ymlaen, bydd angen i chi wneud datganiadau tollau.

- ☐ **Os ydych yn mewnforio nwyddau nad ydynt o dan reolaeth (nwyddau safonol)** o wledydd yn yr UE, gallwch ohirio gwneud datganiadau mewnforio am hyd at chwe mis. I wneud hyn, bydd angen i chi wneud datganiad yn eich cofnodion. Gelwir hyn yn gofnod yng nghofnodion y datganwr. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.gov.uk/hmrc/delay-import-declarations**
- ☐ **Os ydych yn mewnforio nwyddau o dan reolaeth (www.gov.uk/guidance/list-of-goods-imported-into-great-britain-from-the-eu-that-are-controlled)** bydd yn rhaid i chi lenwi datganiadau mewnforio o 1 Ionawr 2021 ymlaen. Bydd angen i chi ddefnyddio'r un broses â'r un ar gyfer masnachu â gweddill y byd. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn **www.gov.uk/import-goods-outside-eu**
- ☐ **Os ydych yn allforio nwyddau safonol neu nwyddau o dan reolaeth,** bydd angen i chi lenwi datganiadau allforio a chyflwyno datganiadau diogelwch llawn o 1 Ionawr 2021 ymlaen. Bydd angen i chi ddefnyddio'r un broses â'r un ar gyfer masnachu â gweddill y byd. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn **www.gov.uk/export-goods-outside-eu**

## 2 Paratoi i wneud datganiadau tollau

Erbyn hyn, dylech fod wedi penderfynu p'un a oes gennych y capasiti mewnol i wneud eich datganiadau eich hun, neu a oes angen i chi gael arbenigwr i wneud hyn ar eich rhan. Mae datganiadau tollau'n gymhleth ac yn cymryd tipyn o amser i'w gwneud, felly mae'r rhan fwyaf o fusnesau'n defnyddio arbenigwr, megis cwmni anfon nwyddau neu gwmni cludo cyflym, i ymdrin â thollau ar eu rhan.

**Os ydych yn bwriadu cael arbenigwr i wneud eich datganiadau ar eich rhan, bydd angen i chi wneud y canlynol:**

- [ ] dod o hyd i rywun nawr i wneud eich datganiadau. Mae rhestr o'r arbenigwyr a all eich helpu i'w gweld yn **www.gov.uk/guidance/list-of-customs-agents-and-fast-parcel-operators**
- [ ] gwneud yn siŵr eich bod yn deall beth yw'ch cyfrifoldebau a pha wybodaeth y mae angen i chi ei rhannu â phwy bynnag sy'n gwneud eich datganiadau.
- [ ] gweithio gyda'r arbenigwr o'ch dewis i sicrhau eich bod yn barod i fasnachu ag Ewrop o 1 Ionawr 2021 ymlaen.

**Os nad ydych wedi gwneud y paratoadau hyn, mae perygl na fyddwch yn barod mewn pryd ar gyfer 1 Ionawr 2021, hyd yn oed os ydych yn dechrau arni nawr.**

**Os ydych yn bwriadu masnachu ag Ewrop ym mis Ionawr neu fis Chwefror, mae angen i chi weithredu nawr, ac rydym yn argymell eich bod yn cael arbenigwr i wneud datganiadau ar eich rhan.**

**Os ydych yn dal i fwriadu gwneud eich datganiadau eich hun, mae angen i chi wneud y canlynol:**

- [ ] sicrhau bod gennych y sgiliau a'r wybodaeth o fewn eich busnes i lenwi datganiadau tollau.
- [ ] prynu'r feddalwedd arbenigol a'r trwyddedau sydd eu hangen i ryngweithio â systemau CThEM.
- [ ] gwneud cais am fynediad at CHIEF, y system TG a ddefnyddir i wneud datganiadau i CThEM.

- ☐ cofrestru ar gyfer cyfrif gohirio tollau, os ydych yn bwriadu gohirio'ch datganiadau, ar gyfer nwyddau nad ydynt o dan reolaeth yr ydych yn eu mewnforio, tan 30 Mehefin 2021.
- ☐ gwirio pa gofnodion o'ch nwyddau wedi'u mewnforio y mae'n rhaid i chi eu cadw i ategu'ch datganiadau.

## 3 Gwneud yn siŵr bod eich cadwyn gyflenwi'n barod

- ☐ Rhannwch yr wybodaeth hon â phawb yn eich cadwyn gyflenwi, fel eich bod yn gwybod pa newidiadau y mae'n rhaid i chi i gyd eu gwneud.
- ☐ Rydym yn argymell eich bod yn rhoi gwybod i'ch partner masnachu â'r UE am fynd i'r wefan **www.gov.uk/eubusiness** er mwyn gwirio'r camau y mae angen iddo eu cymryd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn **www.gov.uk/transition.cy**